



CYNGOR TREF
AMLWCH
TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Llawr y Llan, Lon Goch, Amlwch, Ynys Mon, LL68 9EN
Epost/Email: swyddfa@cyngortrefamlwch.co.uk
Ffon/Tel: 01407 832 228

Cyngor Tref Amlwch Town Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth, Mai 24, 2016 yn Siambr y Cyngor am 7 o'r gloch.
Minutes of the meeting held at the Council Chamber on Tuesday 24th May, 2016 at 7pm.

Presennol / Present: Gareth W Roberts OBE, Gwynn Jones, Meg Roberts, Miriam Sanders, Gareth Owen, Robert Whitfield, Cyng/Cllr Aled M Jones, Cyng/Cllr Wil Hughes

Yn bresennol / In attendance: Carli Evans-Thau (clerc / clerk), Hywel Hughes (cyfieithu / translation)

Ymddiheuriadau / Apologies: Myrddin Owens, Gordon Warren, John Byast, Val Roberts, Wayne Jones, Mike Roberts, Nige Ault, Helen Hughes, Cyng/Cllr Richard Jones

1 Cadeiriwyd y cyfarfod i ddechrau gan Gareth W Roberts OBE ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod. Croesawyd Roberts Whitfield i'w gyfarfod cyntaf fel aelod o'r Cyngor.

The meeting was initially chaired by Gareth W Roberts OBE and all were welcomed to the meeting. Roberts Whitfield was welcomed to his first meeting as a Council member.

2 Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd / Election of Chair and Vice Chair

Cyn sefyll o'r Gadair, fe ddiolchodd Gareth W Roberts am gefnogaeth y rheini oedd wedi bod yn bresennol ac wedi gweithio er budd y Cyngor a'r gymuned yn ystod ei gyfod yn y Gadair. Fe ddosbarthwyd gopiau o Adroddiad y Cadeirydd i'r rheini oedd yn bresennol er gwybodaeth. Roedd yr adroddiad yn amlinellu nifer o brosiectau oedd wedi eu cyflawni gan y Cyngor dan arweiniad Gareth W Roberts er engrhaifft sefydlu partneriaeth Trefi Mon a Phartneriaeth Cyngorau Gogledd Mon.

Enwebwyd Gwynn Jones yn Gadeirydd – cynnig Meg Roberts, eilio Miriam Sanders, pawb yn hapus. Derbyniwyd y Gadair gan Gwynn Jones ac fe ddiolchodd i Gareth W Roberts am arwain y Cyngor a chyflawni cymaint.

Enwebwyd Gareth W Roberts OBE yn Is-gadeirydd – cynnig Miriam Sanders, eilio Meg Roberts, pawb yn hapus.

Before standing down, Gareth W Roberts took the opportunity to thank those who had been present and had worked for the benefit of the Council and the community during his period in office. Copies of the Chairman's report were distributed to those present for information. The report outlined a number of projects that had been fulfilled by the Council under the leadership of Gareth W Roberts e.g. establishing the Trefi Mon partnership and the North Anglesey Councils Partnership.

Gwynn Jones was nominated as Chair – proposed Meg Roberts, seconded Miriam Sanders. All happy. Gwynn Jones accepted the position and thanked Gareth W Roberts for leading the Council and achieving so much.

Gareth W Roberts was nominated as Vice Chair – proposed Miriam Sanders, seconded Meg Roberts. All happy.

3 Penodi Is-bwyllgorau a Chynrychiolwyr / Appoint of Sub-committees and Representatives **Cynrychiolwyr / Representatives**

1. Neuadd Goffa / Memorial Hall – Miriam Sanders
2. Hen Ysgol Borth Amlwch / Old School Amlwch Port – Nige Ault, Miriam Sanders
3. Wylfa SSG (Magnox) & PLG (Horizon) – Myrddin W Owens, Gareth W Roberts OBE
4. Canolfan Ymgynghori / CAB – Gwynn Jones
5. Un Llais Cymru – Gwynn Jones, Meg Roberts
6. Llwybrau Cyhoeddus / Public Footpaths – Gordon Warren
7. Fforwm Cynllunio / Planning Forum – Robert Whitfield
8. Llywodraethwyr Ysgol Gynradd / Primary School Governors – Meirion Jones (iw gadarnhau/tbc)
9. Pwyllgor Deyrnas Gopr / Copper Kingdom Steering group – Mike Roberts
10. Trefi Mon - Myrddin W Owens, Gareth W Roberts OBE
11. Partneriaeth Cyngorau Gogledd Mon / North Anglesey Councils Partnership - Myrddin W Owens, Gareth W Roberts OBE

Pwyllgor Cyllid / Finance (5+cadeirydd/chair)

Myrddin Owens (c), Gareth W Roberts, Gwynn Jones, Helen Hughes, Mike Roberts, Robert Whitfield

Parciau a Mannau Agored (a goleuadau Nadolig) / Parks and Open Spaces (and Christmas lights) (6+cadeirydd/chair)

Gwynn Jones (c), Mike Roberts, Miriam Sanders, Nige Ault, Gareth Owen, Gordon Warren, Wayne Jones

Mynwent / Cemetery (5+cadeirydd/chair)

Miriam Sanders, Gareth W Roberts, Myrddin Owens, Gwynn Jones, Meg Roberts, John Byast

Cynllunio / Planning (4+cadeirydd/chair – 4 cais neu fwy/applications or more)

Meg Roberts, Mike Roberts, Gwynn Jones, Gordon Warren, Miriam Sanders

Gefeillio / Twinning (5+cadeirydd/chair)

Meg Roberts (c), Miriam Sanders, Helen Hughes, John Byast, Nige Ault

Nodwyd bod y Cadeirydd yn aelod o phob is-bwyllgor /

It was noted that the Chair was a member of all sub-committees.

4 Cofnodion y cyfarfod diwethaf / Minutes of the last meeting

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir. Cynnig gan Miriam Sanders, eilio gan Meg Roberts.

The minutes of the last meeting were approved as a true record. Proposed by Miriam Sanders, seconded by Meg Roberts.

5 Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

5.1 Polisi Gosod Tai / House Letting Policy

Mae Cyng Aled Jones wedi anfon copi o'r polisi i'r Swyddfa. Cadarnhawyd mai hwn oedd y draft terfynol. Dylsai'r system newydd fod yn fwy teg i bobl lleol sydd wir angen tai. Teimlai Cyngor Amlwch nad oedd pobl lleol yn cael digon o chwarae teg.

Cllr Aled Jones has sent a copy of the letting policy to the office. It was confirmed that this was the final draft. The new system should be fairer for local people in need of housing. Amlwch Council felt that local people were not given a fair opportunity.

5.2 Parciau a Mannau Agored / Parks and Open Spaces

Mae problem ar hyn o bryd gyda'r cytundeb torri gwair ac mae cwynion nad yw'r gwaith yn cael ei wneud. Cadarnhawyd bod wedi ceisio cysylltu a'r contractiwr ar y ffon a drwy ebost heb ymateb. Cynnigwyd bod y cytundeb yn cael ei gynnegi o'r newydd. Cynnig gan Gareth W Roberts, pawb yn hapus. Cytuno Clerc i drefnu hysbyseb ac adrodd yn ol i'r pwyllgor cyllid.

There is an issue at present with regard to the grass cutting contract and there are complaints that the work is not being done. It was confirmed that contact with the contractor had been attempted both by phone and email without success. It was proposed that a new contract is put to tender. Proposed Gareth W Roberts, all in agreement. Agreed for the Clerk to arrange to advertise and report back to the finance committee.

5.3 Fforwm Adfywio / Regeneration Forum

Cafwyd gadarnhad gan Cyng Aled Jones ei fod wedi ebostio nifer o unigolion ynglyn a sefydlu pwyllgor. Mae Gareth W Roberts ar hyn o bryd yn sefydlu fforwm yn unol a phenderfyniad y Cyngor Tref yn y cyfarfod diwethaf.

Cllr Aled Jones confirmed that he has emailed a number of individuals with regard to establishing a regeneration committee. Gareth W Roberts is currently establishing a forum in line with the Town Council's decision at the last meeting.

5.4 Marchnad / Market

Cadarnhawyd bod arwyddion wedi eu archebu. Cafwyd ddiweddariad gan Gareth W Roberts OBE am y sefyllfa bresennol. Disgwylir ymateb gan y Cyngor Sir i gadarnhau manylion.

It was confirmed that signs had been ordered. Gareth W Roberts gave an update on the current situation. The County Council are expected to confirm the details.

5.5 Fferm Arae Haul / Solar Farm

Cadarnhawyd bod trafodaethau yn parhau gyda'r cwmni ar ran ardal Llanbadrig.

It was confirmed that discussions on behalf of Llanbadrig are continuing with the company.

5.6 Stryd Salem Street

Deallwyd bod pobl yn dal i yrru y ffordd anghywir i fynu'r stryd. Bydd Cyng Wil Hughes a Cyng Aled Jones yn cysylltu a'r adran briffyrdd ar bryder.

It was understood that people are still driving the wrong way up the street. Cllr Wil Hughes and Cllr Aled Jones to contact the highways department as a matter of urgency.

6 Pwyllgorau allanol / External meetings

6.1 Partneriaeth Cyngorau Gogledd Mon / North Anglesey Councils Partnership

Cafwyd grynodedb o'r cyfarfod a gynhaliwyd gyda Horizon i drafod eu ymgynghoriad diweddaraf. Nodwyd pryderon yr aelodau am maint y ffens, ddiffyg mynediad i gerbydau argyfwng, dim son am y lon tua Amlwch, diffyg sicrwydd mai busnesau lleol fyddai yn cael y gwaith a diffiniad y cwmni o bobl lleol. Mae'r ymgynghoriad yn rhedeg nes diwedd Mai.

A summary was given of the meeting held with Horizon to discuss their latest consultation. Members concerns were noted regarding the height of the fence, lack of access for emergency vehicles, no information on the road towards Amlwch, no certainty that local businesses will secure work and the company's definition of 'local people'. The consultation runs until the end of May.

6.2 Fforwm Clercod a Chadeiryddion / Clerk and Chair's Forum

Trafodwyd y pecyn partneriaeth sydd wedi ei ddatblygu i gynnig canllawiau i gyrff sydd am gymryd cyfrifoldeb am gyfleusterau a gwasanaethau e.g. llyfrgelloedd a thoiledau yn y gymuned. Gobeithir bydd y draft terfynol ar gael erbyn cyfarfod nesaf y fforwm.

The 'partnership toolkit' was discussed. This has been developed to offer guidance to organisations that are looking to take responsibility for services and facilities e.g. libraries and toilets within the community. It was hoped that the final draft of the document would be available by the next meeting of the forum.

7 Pwyllgor Cyllid a Staffio / Finance and Staffing Committee

Argymhellwyd bod y Cyngor yn derbyn pris i osod sgrin diogelwch yn y brif Swyddfa. Cynnig Gareth W Roberts, eilio Meg Roberts. Mae angen cwblhau'r gwaith ar fryder.

It was recommended that the Council accept a price to install a safety screen in the main Office.

Proposed Gareth W Roberts, seconded Meg Roberts. The work is to be completed as a matter of urgency.

8 Seddi Gwag / Empty Seats

Cadarnhawyd mai'r tri unigiolyn a fu'n llwyddianus yn dilyn y cyfweiliadau oedd John Byast (Dref), Robert Whitfield (Porth) a Meirion Jones (Porth). Mae disgwyl iddynt arwyddo i dderbyn eu swydd.

It was confirmed that the three successful candidates following interview were John Byast (Town), Robert Whitfield (Port) and Meirion Jones (Port). They are expected to sign the declaration of acceptance of office.

9 Grisiau Tai Pensiynwyr / Steps – Pensioners Bungalows

Nid oes diweddariad hyd yma, ond fe gadarnhaodd Cyng Aled Jones ei fod mewn cysylltiad a'r swyddogion yn adran dai.

There is no update as yet but Cllr Aled Jones confirmed that he is in contact with the relevant officers in the housing dept.

10 Swyddfa Bost / Post Office

Mae'r Cyngor Tref mewn trafodaethau a'r Swyddfa Bost a busnes lleol. Ni fydd datganiad swyddogol nes bydd cadarnhad a cytundeb gan y ddau ochr. Roedd yr aelodau wedi eu siomi gyda Cyng Richard Jones am fynd at y wasg gan fod y gymuned eisioes wedi eu camarwain ynglyn a lleoliad newydd i'r Swyddfa Bost; mae hyn yn achosi pryder yn y gymuned yn enwedig i'r henoed.

The Town Council are in discussions with the Post Office and a local business. No official statement will be made until both parties have agreed and confirmed. The members were disappointed with Cllr Richard Jones for going to the press as the community have been misled in the past with regard to the future location of the post office and this is causing stress, especially to the elderly.

11 Llyfrgell / Library

Mae disgwyl cadarnhad gan y Cyngor Sir i gynnal cyfarfod yn Amlwch gydag aelodau'r Cyngor i drafod ymhellach. Gobeithir cyfarfod a hwy yn yr ail wythnos ym Mehefin.

Await confirmation from the County Council to hold a meeting in Amlwch with the Council members to discuss further. It is hoped to meet with them in the second week in June.

12 Ynys Ynni / Energy Island

Yn dilyn cais i'r Adran Economaidd am restr aelodaeth grwp Ynys Ynni daw ebost yn ol yn gofyn pam fod angen y wybodaeth yma. Mae'r un ebost wedi ei anfon at Arweinydd y Cyngor heb ymateb hyd yma. Cytuno byddai modd cyflwyno cais swyddogol am wybodaeth i'r prif weithredwr mewn amser.

Following a request to the Economic Department for a list of Energy Island group members, the reply wanted to know why the information was requested. The same email has been sent to the Council Leader, no reply has been received as yet. It was agreed that a Freedom of Information request could be presented to the chief executive in time.

13 Eisteddfod Genedlaethol / National Eisteddfod

Trafodwyd cais gan Bwyllgor Apel Lleol yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mon 2017 am gefnogaeth ariannol. Fe gynnigodd Gareth W Roberts OBE bod cyfraniad o £500 gan y Cyngor. Pawb yn cytuno.

A request for financial support from the local fundraising committee of the National Eisteddfod – Anglesey 2017 was discussed. Gareth W Roberts OBE proposed that a contribution of £500 was given on behalf of the Council. All agreed.

14 Cynllunio / Planning

Roedd Cyng Wil Hughes yn datgan diddordeb ac ni gymerodd ran yn y drafodaeth. Cllr Wil Hughes declared an interest and did not take part in the discussion.

Cyflwynwyd un cais i'w ystyried / *One application was presented for consideration – 11LPA101M/1/LB/CC – Ysgol Syr Thomas Jones – dim gwrthwynebiad / no objections*

Cafwyd wybod bod cais 11C288L 7 Maes Ednyfed wedi ei dynnu yn ol.
It was noted that application ref 11C288L 7 Maes Ednyfed had been withdrawn.

Nodwyd y penderfyniadau y Cyngor Sir fel a ganlyn /
The following County Council decisions were noted:

- Gwel y Mynydd, Pen Cae – caniatad/*granted*
- Man Hyfryd, Porth Llechog – caniatad/*granted*.

Cafwyd wybod gan Cyng Aled Jones ei fod wedi ymweld ag Safle 24 Awelfryn gyda'r Swyddog Cynllunio a bod y cais wedi ei alw i fewn i Bwyllgor. Nodwyd bod y Cyngor Tref wedi gofyn i'r pwyllgor ymweld a'r safle yn y cyfarfod diwethaf.

Cllr Aled M Jones informed those present that he had been on a site visit with the planning officer to 24 Awelfryn and that the application had been called into the committee. It was noted that the Town Council had requested at the last meeting that the committee visit the site.

15 Gohebiaeth / Correspondence

15.1 Cais am gymorth ariannol gan PCSO Nerys Williams tuag at ddiwrnod o hwyl i bobl ifanc Amlwch mewn cydweithrediad a Swyddog Chwarae y Cyngor Sir a mudiadau eraill. Cytuno bod cyfraniad o £100 gan y Cyngor Tref. Cynnig hefyd bod y grwp yn cyflwyno cais i Gronfa Magnox am gyfraniad tuag at costau.

PCSO Nerys Williams has requested financial support towards a funday for the young people of Amlwch in conjunction with the play officer, County Council and other organisations. Agreed to a contribution of £100 on behalf of the Town Council. It was suggested that the group also submit an application to the Magnox Fund for a contribution towards costs.

15.2 Cais gan Grwp Carnifal Amlwch am gefnogaeth i osod y fflagiau yn y stryd. Bydd y carnifal yn cymryd lle 23/7/2016. Dim gwrthwynebiad.

A request from the Carnival Group for support to erect the bunting in the street. The carnival is set to take place 23/7/2016. No objection.

15.3 Ymgynghoriad Wylfa Newydd – mae angen ymateb erbyn diwedd Mai. Pryderon eisioes wedi eu trafod (cyfarfodydd allannol).

Wylfa Newydd consultation – need to respond by the end of May. Concerns already discussed (external meetings).

15.4 Menter Newydd Horizon – dosbarthwyd copi o'r datganiad i'r wasg drwy ebost at yr aelodau. Fe ofybnwyd a fydd Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon yn cyfarfod a'r grwp newydd yma yn fuan.

Horizon's New Venture - a copy of the press release has been distributed to members by email. It was asked whether the North Anglesey Councils Partnership will be meeting with the group any time soon.

16 Unrhyw Fater Arall / Any Other Business

16.1 Parc Bro Trehinion Park

Daw cwynion am bobl yn ymgasglu yn y parc, sbwriel, yfed a thannau ymysg pethau eraill. Mae'r heddlu yn ymwybodol o'r sefyllfa. Cytuno byddai'r Cyngor yn trefnu symud y byrddau oddi-yno i geisio lleihau'r problem.

Complaints regarding people congregating, rubbish, drinking and fires amongst other things. The police are aware of the situation. It was agreed that the Council remove the tables to try and reduce the problem.

16.2 Toiledau Cyhoeddus / Public Toilets

Daw gwahoddiad gan y Cyngor Sir i'r Cyngor Tref gymryd cyfrifoldeb am y ddau gyfleuster yn y dref (Lon Goch a Porth Llechog) o Ebrill 2017. Mae'r Clerc eisioes wedi cysylltu a'r swyddogion priodol i ofyn am fwy o wybodaeth a chostau.

The County Council has invited the town Council to take responsibility for the two facilities in the town (Lon Goch and Bull Bay) from April 2017. The Clerk has already contacted the relevant officers for more information and costs.

16.3 St Eleth

Er gwybodaeth mae Eglwys St Eleth wedi bod ar glo am resymau diogelwch. Deallwyd bod y louveres wedi eu ail-osod erbyn hyn.

For information, St Eleth Church has been locked of late for safety reasons. It is understood that the louveres have been re-instated by now.

16.4 Rheilffordd / Railway

Cafwyd wybod bod sbwriel yn cael ei adael ar yr hen reilffordd ger Llwyn Onn.
It was noted that rubbish is being dumped on the old railway by Llwyn Onn

16.5 Marciau Lon – Porth Llechog / Road Markings – Bull Bay

Nodwyd bod yr arwyddion dros dro a diffyg llinellau yn beryg ac roedd pryder am ddamweiniau posib. Cyng Wil Hughes i atgoffa'r Cyngor Sir bod y gwaith heb ei orffen.

It was noted that the temporary signs and lack of markings were dangerous and there were concerns for possible accidents. Cllr Wil Hughes to remind the County Council that the work had not been completed.

17 Dyddiad y cyfarfod nesaf / Date of next meeting

Bydd y cyfarfod nesaf i'w gynnal nos Fawrth Mehefin 28, 2016.
The next meeting will be held on Tuesday June 28 2016.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.00. / *The meeting closed at 20.00.*